Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 23 Ionawr 2023

Presennol: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Ann Bowen Morgan, Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, John Roberts, Mark Strong a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd a Gwyn Wigley Evans.

Angela Lodwick, Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Therapïau Seicolegol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

Swyddogion yn bresennol: Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd; Owain Jones, Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar; Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol, Ymyrraeth Cynnar; Sara Humphreys, Rheolwr Tîm- Gofalwyr a Chefnogaeth Gymunedol; Carwyn Young, Rheolwr Corfforaethol, Canolfannau Lles; Alwyn Davies, Rheolwr Gweithgaredd Corfforol a Chwarae; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am - 12.45pm)

1 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 Adroddiad am y gwasanaeth Olrhain a Diogelu yng Ngheredigion

Eglurodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd) mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad am y gwasanaeth Olrhain a Diogelu yng Ngheredigion. Ym mis Gorffennaf 2022, sefydlwyd model newydd ond dros dro ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Olrhain a Diogelu yn

rhanbarth Hywel Dda. Cafodd y gwasanaeth newydd ei ffurfio mewn ymateb i'r amcanion a nodir yn "Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel - COVID-19: cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig" a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid Olrhain Cysylltiadau ostwng yn fawr yn 2022-23 h.y. bydd y gyllideb honno yn cyfateb i 40% o'r hyn a gafwyd ar gyfer 2021/22. Oherwydd bod y gyllideb yn llai a bod nifer y staff wedi gostwng, mae Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu Sir Benfro a Cheredigion wedi uno er mwyn sicrhau arbedion maint a meithrin cydnerthedd ar draws y ddau awdurdod lleol. Mae'r tîm cyfun yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Sir Gaerfyrddin.

Eglurodd Carwen Evans fod gan Geredigion dîm tracio ac olrhain effeithiol iawn yn ystod ac ers y pandemig fel yr adlewyrchwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Yn dilyn y gyfarwyddeb a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd ffocws y tîm tracio ac olrhain bellach ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn y gymuned. Roedd cyllid wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn arall i barhau â'r gwasanaeth hwn.
- Gan fod profi yn y gymuned wedi dod i ben yn 2022, codwyd pryderon bod llai o bobl yn barod i brofi gan fod pecynnau profi gartref yn ddrud i'w prynu.
- Ym mis Rhagfyr, roedd cyfradd achosion Covid-19 wedi cynyddu ychydig nad oedd yn syndod, fodd bynnag, roedd y ffigurau wedi gostwng eto erbyn mis Ionawr.
- Roedd dau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Arbenigol a gafodd eu hadleoli fel mater o flaenoriaeth yn ystod y pandemig i gefnogi'r tîm Covid wedi dychwelyd yn rhannol i'w rôl o fewn Tîm Diogelu'r Cyhoedd.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

4 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol chwarter 1 a 2

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Lles) adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 a 2 2022/2023. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael

Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 4 plentyn (2 yn Chwarter 1 a 2 yn Chwarter 2 2022/23). Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiadau.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Elizabeth Upcott a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers Covid-19 yn duedd genedlaethol. Nid oedd dim esboniad penodol ar gael ar hyn o bryd am hyn, ond cynyddodd yr adrodd unwaith yr oedd plant yn cael eu gweld eto gan weithwyr proffesiynol.
- Ni soniwyd am ddim problemau gyda phresenoldeb gweithwyr proffesiynol na gofalwyr maeth mewn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Roedd cyfarfodydd fel arfer y tu allan i'r amserlenni oherwydd problemau wrth drefnu dyddiad addas i bawb dan sylw.
- O ran anghenion iechyd y plant, gweithiodd yr awdurdod yn agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mynychodd nyrs plant sy'n derbyn gofal gyfarfodydd monitro ac adolygu, felly gellid codi unrhyw faterion megis apwyntiadau deintyddol. Mewn achosion lle nad oedd plant wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod, roedd yr oedi fel arfer oherwydd logisteg mynychu'r practis.
- Roedd llawer o leoliadau y tu allan i'r sir oherwydd anghenion cymhleth y plant a'r diffyg lleoliadau yng Ngheredigion, a fu'n heriol mewn argyfwng. Byddai darpariaeth breswyl mewn 3 lleoliad gwahanol ar draws y sir ar gael erbyn yr Haf gobeithio, a fyddai'n sicrhau bod plant yn aros mor agos â phosibl i'r gymuned.
- Ymyrryd ac atal yn gynnar oedd y prif amcanion ond mewn rhai sefyllfaoedd roedd yn rhaid symud plant o'r cartref oherwydd lefel y risg. Roedd nifer y plant a arhosodd mewn gofal am 2 flynedd neu ragor yng Ngheredigion yn debyg i awdurdodau lleol cyfagos.
- Oherwydd problemau yn y Tîm Gofal wedi'i Gynllunio, bu rhywfaint o oedi wrth roi cymorth cofleidiol i blant sy'n derbyn gofal.

Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad i'r adran ac fe wnaeth hi gydnabod bod y gwasanaeth yn parhau i wynebu heriau o ran recriwtio.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

5 Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru

Gwahoddwyd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i arsylwi ar yr eitem hon ar yr agenda.

Eglurodd y Cynghorydd Catrin M S. Davies (Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid) mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r aelodau am y prif ganfyddiadau ar gyfer Ceredigion o Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru. Mae'r Arolwg yn rhoi cipolwg i awdurdodau lleol am lefelau cyfranogi, ymddygiad ac agweddau pobl ifanc yng Nghymru. Roedd barn pobl ifanc yn cael ei hystyried yn bwysig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd Carwyn Young fod yr Arolwg a gynhaliwyd am y pedwerydd tro yn allweddol i ddeall lefelau gweithgarwch a lles pobl ifanc ar lefel sirol a rhanbarthol. O ran Ceredigion, ymatebodd 2,762 o bobl ifanc i'r arolwg (1,288 Cynradd a 1,474 Uwchradd). Cyfeiriwyd at y cefndir a gynhwyswyd yn yr adroddiad, at y prif ganfyddiadau a rannwyd yn 4 prif adran (Cenedl Egnïol, Pawb, Gydol Oes a Mwynhad), at y casgliadau ac at y sefyllfa ar hyn o bryd.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O ystyried pwysigrwydd chwaraeon, roedd y cydbwysedd rhwng llwyddiant a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle yn hollbwysig.
- Teimlai'r aelodau y byddai cynnwys ffigurau ysbrydoledig o fudd i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Nodwyd bod unigolion a gynrychiolodd Gymru mewn chwaraeon yn gymwys ar gyfer Cynllun y Cerdyn Aur, sy'n rhoi defnydd am ddim o gyfleusterau hamdden. Roedd mwy o gardiau wedi'u dosbarthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nag yn y blynyddoedd blaenorol ac roedd pawb a fu'n ymwneud â Thaith Gyfnewid Baton y Frenhines ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2022 yn rhan o'r cynllun. Yn ogystal, roedd gwaith ymchwilio'n mynd rhagddo o ran ailgyflwyno'r Seremoni Wobrwyo a gynhelir bob blwyddyn cyn Covid-19 i gydnabod llwyddiannau unigolion a oedd wedi cynrychioli Cymru.
- Cydnabuwyd, oherwydd y pellter o gyfleusterau ymarfer cenedlaethol, fod pobl ifanc Ceredigion o bosibl dan anfantais, felly roedd yn rhaid i gyrff llywodraethu ystyried sut yr oeddent yn cefnogi unigolion o ardaloedd gwledig. Byddai'r awdurdod lleol yn fwy na pharod i gydweithio â'r cyrff llywodraethu i sicrhau bod y ddarpariaeth i alluogi pobl i ddod yn egnïol ac ymarfer yn lleol ar gael. Roedd hyn yn cynnwys y ddarpariaeth a wnaed yn bosibl gan ymddiriedolaethau cymunedol a chlybiau chwaraeon cymunedol. Pwysleisiwyd hefyd bod yn rhaid ystyried y costau gweithredu a chynnal a chadw wrth ddatblygu unrhyw gyfleusterau newydd.
- O ran y grant o hyd at £1500 i ysgolion uwchradd i ehangu eu harlwy o ran gweithgaredd allgyrsiol, roedd yn ofynnol i ysgolion gyflwyno cynllun yn amlinellu sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio. Rhaid i'r cynllun gynnwys o leiaf un gweithgaredd sy'n targedu merched. Byddai

argaeledd y grant hwn yn y dyfodol yn dibynnu ar ddenu cyllid oddi wrth Chwaraeon Cymru.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

6 Cyflwyniad gan y Tîm Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Croesawodd y Cadeirydd Angela Lodwick a diolchodd iddi am fynychu ac am ei pharodrwydd i siarad ag Aelodau'r Pwyllgor. Gwahoddwyd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i arsylwi ar yr eitem hon ar yr agenda.

Rhoddodd Angela Lodwick gyflwyniad i'r aelodau, yn amlinellu'r canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant uwchradd a'r glasoed y GIG (Rôl a Swyddogaeth, Llwybr Atgyfeirio a Mewngymorth i'r Ysgol)
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cynradd
- Lles Emosiynol/ Ysgolion
- Fframwaith Gwasanaeth gwasanaethau iechyd meddwl plant uwchradd a'r glasoed a Gwasanaethau Arbenigol GIG Cymru
- Atgyfeiriadau wedi'u cael ac wedi'u derbyn (data am Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Cheredigion)
- Gweithlu Gwasanaethau iechyd meddwl plant uwchradd a'r glasoed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Cheredigion
- Effaith a chanlyniadau cadarnhaol oherwydd Covid-19
- Cydgynhyrchu: Future Minds, Gwasanaeth Cwnsela Digidol Ar-lein KOOTH gan gynnwys problemau ymgyflwyno ac Arts Boost
- Iechyd a Lles Diogel Plant a phobl ifanc sydd mewn trallod iechyd meddwl a chanlyniadau
- Ymyriadau i hybu lles meddyliol

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Angela Lodwick. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd pryderon a godwyd gyda meddygon teulu yn ymwneud â diffyg atgyfeirio plant a phobl ifanc a chydag amseroedd aros; roedd pob meddyg teulu yn ymwybodol o lwybr atgyfeirio'r Un Pwynt Cyswllt. Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn cael eu gwneud gan ysgolion, o bosibl gan fod staff a nyrsys ysgolion yn fwy cyfarwydd â'r plant a'r bobl ifanc. Y targed gan Lywodraeth Cymru oedd i bob asesiad gael ei gynnal o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad, ond yn ystod Covid-19, bu oedi gyda gwasanaethau iechyd meddwl plant cynradd a'r glasoed oherwydd cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau.
- Awgrymwyd bod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ffyrdd o gael gafael ar wasanaethau. Roedd y wefan wrthi'n cael ei diweddaru.
- Roedd KOOTH yn cyflogi cwnselwyr hyfforddedig, ond ni chafodd ei ddatblygu yn lle gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Roedd system wedi'i sefydlu i roi gwybod i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed os ystyrir bod plant a phobl ifanc yn risg uchel. O ran KOOTH, roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhwng 14-17 oed. Nid oedd dadansoddiad o ryw'r defnyddwyr ar gael yn ystod y cyfarfod.

- Cydnabuwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi datblygu'n sylweddol dros y degawd diwethaf ynghyd â sgyrsiau am iechyd meddwl. Roedd ffocws gwasanaethau iechyd meddwl plant cynradd a'r glasoed ar ymyrraeth gynnar ac mae Gwasanaethau Mewngymorth Ysgolion wedi bod yn weithgar yng Ngheredigion ers 3 blynedd sydd wedi codi hyder athrawon mewn iechyd meddwl plant a'r glasoed.
- Darparodd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wasanaethau i bobl ifanc hyd at 18 oed; roedd arweinydd pontio yn ei le i gynorthwyo gyda'r pontio i wasanaethau iechyd meddwl oedolion.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gael safle mwy addas ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn Aberystwyth gan nad oedd Tŷ Helyg yn cael ei ystyried yn addas i'r diben.
- Mewn achosion lle na dderbyniodd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed atgyfeiriad, roedd y plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio/yn cael cyngor neu'n cael eu hatgyfeirio at wasanaeth gwahanol.
- O ran y ddarpariaeth Gymraeg a ystyriwyd yn allweddol, roedd disgwyl i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gadw at Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Fe ddygwyd staff Cymraeg eu hiaith o'r gwasanaeth i mewn i gynnal asesiadau a thriniaeth ar gyfer plant a phobl ifanc pan fo angen.
- Roedd gorbryder/straen wedi cynyddu'n sylweddol ers pandemig Covid-19 ac ar hyn o bryd, dyma'r broblem fwyaf o ran ymgyflwyno mewn plant a phobl ifanc. Roedd llwybr wedi'i ddatblygu i staff nodi a darparu ymyrraeth.
- Er bod tîm anhwylderau bwyta ym Mhen-y-bont ar Ogwr, codwyd pryderon gan nad oedd uned haen 4 benodedig ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i Angela Lodwick am fynychu ac am ei chyfraniad gwerthfawr. Nododd fod y drafodaeth yn sicr wedi codi cwestiynau ac wedi amlygu'r angen am fwy o gymorth i blant a phobl ifanc. Cytunwyd y byddai copi o'r cyflwyniad yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Pwyllgor maes o law.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r wybodaeth ac i ddarparu adborth i'r Cabinet os oes angen.

7 Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2021-2022

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams yr adroddiad ar gyflawniadau Tîm Gofalwyr a Chefnogaeth Gymunedol a datblygiadau yn erbyn y targedau ac amcanion cytûn yn ystod 2021-2022. Fel rhan o'r trawsnewidiad tuag at Fodel Gydol Oed a Llesiant, gwelwyd dau dîm (yr Uned Gofalwyr a Phorth y Gymuned) yn uno i greu'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol. Rhoddwyd trosolwg o Amcanion Busnes yr Uned Gofalwyr.

Eglurodd Iwan Davies fod maes cyntaf yr adroddiad yn canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl sy'n gofalu am bobl yn y gymuned. Rhoddwyd ffigurau'n ymwneud â'r hyn yr oedd Uned y Gofalwyr wedi'i gyflawni yn 2021-22 yn ystod Covid-19, a oedd yn cynnwys £98528 o Gronfa Gofalwyr Ceredigion yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i ofalwyr i wella eu hiechyd a'u lles a

danfon 1600 o de prynhawn Cymreig ‘Break in a Box’. Yn ogystal, roedd Cerdyn Gofalwr a oedd yn rhoi mynediad am ddim i'r holl gyfleusterau hamdden neu ofalwyr sy'n eiddo i'r Cyngor wedi'i ddatblygu.

Roedd ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar Gysylltwyr Cymunedol, a roddodd wybodaeth i gymunedau ac a hyrwyddodd Dewis Cymru. Cyfeiriwyd at gysylltiad Cysylltwr Cymunedol â Fforwm Cymunedol Penparcau ‘HUBGRUB’. Rhoddwyd crynodeb o'r camau nesaf ynghyd â'r Amcanion Busnes ar gyfer 2022-23. Yn ddiweddar, roedd digwyddiadau personol wedi'u trefnu ar gyfer gofalwyr ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis Cymru. Byddai datblygu seibiannau cynaliadwy i ofalwyr yn parhau fel blaenoriaeth hyd y gellir rhagweld.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Iwan Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Codwyd cwestiynau ynghylch pam nad oedd Ceredigion wedi ymuno â'r cyfeiriadur Menter Gofal a Chymorth yn Arberth, gan fod awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi gwneud hynny. Roedd Ceredigion wedi comisiynu ymarfer cwmpasu yn ddiweddar i sicrhau bod ganddynt yr ateb gorau ar gyfer cymunedau Ceredigion. Byddai gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu mentrau micro a mentrau cymdeithasol yn y dyfodol.
- Parhaodd recriwtio ar draws y sector gofal yng Nghymru i fod yn broblem; awgrym i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.
- Roedd pwysigrwydd adnabod gofalwyr yn y gymuned yn allweddol. Cydnabuwyd bod gan Gynghorwyr rôl i sicrhau bod trigolion Ceredigion yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael.
- Diolchwyd i Staff Uned y Gofalwyr am y gwaith rhagorol a wnaed yn enwedig yn ystod cyfnod anodd gyda phandemig Covid-19.

Canmolodd yr Aelodau Susan Kidd, Swyddog Datblygu Gofalwyr am gynhyrchu adroddiad proffesiynol a darllenadwy. Canmolwyd Sara Humphreys, Rheolwr Tîm a swyddogion eraill o Dîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol hefyd am eu cyfraniad gwerthfawr i'r adroddiad.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor, cytunwyd i nodi Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2021-2022.

8 Adroddiad Blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Eglurodd y Cynghorydd Alun Williams bod yr adroddiad wedi’i lunio ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn amlinellu’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau Gofalwyr Llywodraeth Cymru gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Darparwyd y cefndir a'r sefyllfa bresennol fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Tynnodd Iwan Davies sylw at y ffaith bod y cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc a ddatblygwyd yng Ngheredigion wedi'i gyflwyno ers hynny yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Yn ogystal, roedd Uned Gofalwyr Ceredigion wedi gweithio gyda’r Gwasanaeth Ieuenctid, Gweithredu dros Blant ac Arad Goch i

gynhyrchu ffilm i hybu gofalwyr ifanc i hunan-adnabod, a fyddai'n cael ei dangos mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid. Cyfeiriwyd at y gwaith a wnaed i gefnogi busnesau bach a chanolig i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr o safbwynt y gweithwyr a'r cleientiaid. Roedd yr adroddiad nid yn unig yn adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd yng Ngheredigion ond yn rhanbarthol, a dylanwad Ceredigion ar lefel ranbarthol.

Eglurodd y Cynghorydd Alun Williams, er bod gan Geredigion y nifer isaf o ofalwyr ar y gronfa ddata o gymharu â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, roedd ganddi hefyd y boblogaeth isaf. Roedd nifer y gofalwyr sy'n hunan-adnabod yng Ngheredigion wedi cynyddu 53%, o 1575 yn 2019-20 i 2419 yn 2021-22. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r adran am eu gwaith caled yn cyflawni hyn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021-22.

9 I dderbyn cofnodion y cyfarfod diweddara a thrafod unrhyw faterion sy'n codi ohonynt

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022.

Materion sy'n codi: Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Ddydd Iau, 9 Chwefror 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____